Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| | |
|---|---|
| **Cam 1 - Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
| **Enw'r Cynnig:** | **Dyfodol cartrefi gofal preswyl y cyngor** |
| **Adran** | Gwasanaethau i Oedolion |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Sian Nowell |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Sian Nowell |
| **E-bost** | sian.nowell@rhondda-cynon-taf.gov.uk |
| **Ffôn** | 07867 373217 |
| **Disgrifiad Cryno** | Y cynnig yw bod y Cabinet yn penderfynu datgomisiynu dau gartref gofal preswyl yn barhaol fel a ganlyn.<br><br>• Cae Glas, y Ddraenen Wen, a'i 36 gwely preswyl (dementia) a 3 gwely seibiant (dementia)<br>• Tŷ Glynrhedynog, Glynrhedynog a'i 9 gwely gofal preswyl ac 1 gwely gofal seibiant, a 9 gwely gofal preswyl (dementia) ac 1 gwely gofal seibiant (dementia) defnyddiadwy . |
| **Dyddiad** | 16/8/24 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)** | Preswylwyr cartrefi gofal, eu teuluoedd a chynrychiolwyr, gweithwyr y ddau gartref gofal a enwir, y gymuned |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Cynigir bod y Cabinet yn penderfynu<br><br>bod ymrwymiadau a wnaed gan y Cabinet ar gyfer buddsoddi mewn llety newydd gyda chyfleusterau gofal i bobl hŷn yn mynd rhagddynt, a bod y gwaith adeiladu yn gwneud cynnydd da yn y cyfleuster gofal ychwanegol ar safle Dan-y-mynydd yn y Porth ac yn y cyfleuster gofal ychwanegol a phreswyl newydd yn Aberpennar.<br>cytuno ar y cynnig i ddatblygu cartref gofal dementia preswyl newydd ar safle hen ffatri Chubb, Glynrhedynog,<br>cymeradwyo cychwyn proses ymgynghori ag unigolion a'u teuluoedd, staff a rhanddeiliaid perthnasol eraill ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio, sef datgomisiynu Cartref Gofal Tŷ Glynrhedynog i bobl hŷn, pan ddaw lleoedd addas eraill ar gael ar gyfer presylwyr mewn cartref o'u dewis nhw, sy'n diwallu'u hanghenion sydd wedi'u hasesu, fel trefniant dros dro nes bydd y datblygiad cartref gofal newydd ar safle hen Ffatri Chubb yng Nglynrhedynog yn barod. Bryd hwnnw, caiff yr unigolion sy'n cael eu heffeithio y cyfle i fynd i'r cartref gofal newydd, gan ddibynnu ar eu hanghenion wedi'u hasesu a'u dymuniadau.<br>cymeradwyo cychwyn proses ymgynghori ag unigolion a'u teuluoedd, staff, a rhanddeiliaid perthnasol eraill ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio i ddatgomisiynu am byth Cartref Gofal Cae-glas i bobl hŷn pan fydd lleoedd addas eraill ar gael ar gyfer preswylwyr presennol mewn cartref o'u dewis sy'n diwallu eu hanghenion wedi'u hasesu.<br>cytuno i gyfyngu ar dderbyn preswylwyr i gartrefi gofal y Cyngor, oni bai bod amgylchiadau eithriadol lle nad oes lleoliad arall priodol ar gael i fodloni'r angen sydd wedi'i asesu. Mae hyn er mwyn lleihau unrhyw effaith bosibl ar ddefnyddwyr gwasanaeth hyd nes y bydd y Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori ac unrhyw benderfyniad y gall ei wneud mewn perthynas â'r cynigion a argymhellir.<br>Derbyn adroddiad arall ar ôl i'r ymgynghoriad arfaethedig ddod i ben, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'u diweddaru cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud mewn perthynas â'r opsiynau a ffefrir ar gyfer dyfodol darpariaeth llety gofal i bobl hŷn yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor. |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.** | Bydd poblogaeth gyffredinol RhCT yn elwa o ddatblygu llety newydd gyda chyfleoedd gofal i bobl hŷn.<br><br>Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn elwa drwy'r arbedion posibl tuag at y cynllun ariannol tymor canolig<br><br>Cyn y cyfnod ymgynghori dyw hi ddim yn ymddangos y bydd effaith uniongyrchol ar allu'r bobl yr effeithir arnynt yn syth yn y ddau gartref gofal i dderbyn gwasanaeth gofal a chymorth Cymraeg neu i gynnal cysylltiad â chymuned Gymraeg. Fodd bynnag, bydd y broses ymgynghori yn cefnogi ystyriaeth a dadansoddiad pellach i sicrhau bod y cyfleusterau a'r cysylltiadau hyn yn cael eu nodi a'u cadw mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan** | Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| **sylw** | y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n Fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.<br><br>Does dim dewis wedi'i gofnodi gan unrhyw un o'r defnyddwyr gwasanaeth presennol o ran defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni ar ôl i'r cynnig rhagweithiol gael ei wneud.<br><br>Does dim cofnod o aelod o staff yr effeithir arno gan y cynnig hwn sydd wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni yn ffurfiol neu'n anffurfiol,<br><br>Fodd bynnag, mae tystiolaeth (lle mae cofnod) bod staff wedi datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg fel a ganlyn.<br><br>L1 21<br>L2 1<br>L4 4<br>L5 4<br><br>Pe bai'r Cabinet yn cytuno i ymgynghori ar y cynigion byddai cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a staff yn dechrau yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Byddwn ni'n mynd ati i geisio eglurhad ac adolygu dewis iaith pob parti wrth i'r ymgynghoriad fynd rhagddo, waeth beth fo'r dewisiadau blaenorol a gofnodwyd er mwyn sicrhau bod y cynnig rhagweithiol yn cael ei weithredu.<br><br>Yn ogystal, pe byddai dadgomisiynu cartrefi gofal yn cael ei ystyried yn y dyfodol byddai unrhyw gynnig diwygiedig i'r Cabinet angen asesiad pellach o'r effaith wirioneddol ar drigolion, eu teuluoedd, staff a'r gymuned leol. Yn ogystal, pe bai cynigion yn y dyfodol yn cynnwys argymhelliad i fynd ar drywydd datgomisiynu, bydd asesiad effaith ar wahân yn cael ei gwblhau drwy'r broses rheoli newid, i asesu effaith unrhyw ddiffyg yn ein gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn y dyfodol, waeth beth fo'r galw presennol gan gleientiaid. |

RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| **Data neu ymchwil perthnasol arall** | Ar ddiwedd 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru Arad Research ac OB3 Research i gynnal gwerthusiad o strategaeth*Mwy Na Geiriau.*Nod y gwerthusiad oedd asesu sut ac i ba raddau y cyflawnodd y fframwaith dilynol ei nod o hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd hefyd yn anelu at nodi'r rhwystrau a'r hwyluswyr i weithredu saith amcan allweddol y fframwaith dilynol. Mae'r **adroddiad gwerthuso** ar gael ar y ddolen hon.<br><br>Yn gyffredinol, dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiad bod gallu llawer o siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i'w profiad cyffredinol yn ogystal ag mewn llawer o achosion, y canlyniadau iechyd a lles a gawsant yn dilyn hynny. Yn ôl y gwerthusiad, cafwyd cynnydd mewn perthynas â phob un o'r saith amcan, er na ellir ystyried bod yr un ohonynt wedi'u bodloni'n llawn eto.<br><br>At ei gilydd, mae'r Strategaeth*Mwy Na Geiriau*ar ffocws ar y Cynnig Rhagweithiol (darparu dewis Cymraeg i gleifion heb iddynt orfod gofyn amdano) wedi hybu cynnydd cadarnhaol da o ran codi ymwybyddiaeth o'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith. Y brif her sy'n parhau yw sicrhau bod arferion a systemau ar waith i sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei gyflwyno ar draws pob lleoliad. |

RHONDDA CYNON TAF

**Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio yma.**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr | Niwtral | Os cytunir ar y cynnig mewn egwyddor gan y Cabinet bydd cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu pe bai'r cynnig dadgomisiynu, yn dilyn y cyfnod hwn, yn cael ei | Cofnodion defnyddwyr gwasanaeth WCCIS<br><br>Cofnodion staff ITRENT<br><br>Nodwch | Os cytunir ar y cynnig bydd y trefniant ymgysylltu yn cynnwys cyfleoedd i ymgynghori yn Gymraeg<br><br>Os bydd y Cabinet, yn dilyn ymgynghoriad, yn cymeradwyo'r cynnig, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch eu preswylfa ymlaen. Ein gofyniad fyddai eu bod yn dewis lleoliad Rheoleiddiedig a bydd hyn yn sicrhau bod y darparwr yn |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith | | gymeradwyo, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi'n unigol i ddod o hyd i gartref gofal amgen. Bydd amrywiaeth o ystyriaethau y bydd angen iddynt eu hystyried i wneud y dewis hwnnw -<br><br>Does neb o blith y preswylwyr effeithir arnynt wedi nodi dewis i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu nac wrth dderbyn eu gofal a chymorth gyda ni ond byddwn ni'n monitro hyn trwy ein cyswllt i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru.<br><br>Does neb o blith y staff yr effeithir arno wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni yn ffurfiol neu'n anffurfiol ond byddwn | Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnig y cyfle i breswylwyr ymateb yn Gymraeg i'r ymgynghoriad. | destun (ac yn cael ei arolygu yn erbyn) y canllawiau statudol y mae darparwyr gwasanaeth yn eu darparu neu'n gweithio tuag at gynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw.<br><br>Gan fod bwriad i ddatgomisiynu'r gwasanaeth, bydd staff yn cael cynnig trefniant ymddeol/diswyddo VR/VER. Byddant hefyd yn cael cynnig yr opsiwn o adleoli os yw hyn ar gael, bod ganddynt sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys y rhai sydd wedi datblygu eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Mae staff yn fedrus mewn gofal ac wedi'u cofrestru fel gweithiwr gofal gyda gofal cymdeithasol Cymru. Bydd eu sgiliau a'u profiad gan gynnwys y rhai sydd wedi datblygu eu sgiliau Cymraeg o ddiddordeb i ddarpar gyflogwyr ym mhob marchnad darparwyr gofal<br><br>Byddai rheoli newid pe bai angen ar gyfer staff yn ceisio cefnogi'r staff gyda sgiliau Cymraeg i aros yn y sector gofal cymdeithasol<br><br>Lle mae cyfleoedd adleoli ar gael yn y Cyngor byddai'r cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg L3 neu uwch yn berthnasol lle bodlonir meini prawf priodol ar gyfer y cyfleoedd |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ni'n parhau i adolygu hyn ac yn ymateb yn unol â hynny gyda chyfleusterau i sicrhau bod hyn yn cael ei flaenoriaethu.<br><br>Er nad oes unrhyw aelod o staff wedi gofyn am ddewis defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni, mae gan staff (lle mae cofnod) y sgiliau Cymraeg canlynol a nodir bod eu gallu i ddarparu gofal a chymorth i bobl yn Gymraeg o werth, ac mae angen ystyriaeth i'w diogelu ar gyfer y dyfodol<br><br>L1 - 21<br>L2 - 1<br>L4 4<br>L5 4 | | |

**<u>Cam 2 – Asesu Effaith</u>**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | A fydd y cynnig yn | Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael | Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn | Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau |
|---|---|---|---|---|

| | cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg. | hon? | cadarnhaol? |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â [Strategaeth Cymraeg 2050](#) Llywodraeth Cymru / [Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf](#) | Negyddol | Os cytunir ar y cynnig mewn egwyddor gan y Cabinet, bydd cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu os, yn dilyn y cyfnod hwn, y gallai'r cynnig hwn gael effaith ar staff sy'n gweithio tuag at neu'n bwriadu cymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau Cymraeg. | Dyw nifer y staff yn y sefyllfa hon y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt ddim yn hysbys eto. Bydd hyn yn cael ei godi ac yn cael sylw yn ystod y broses ymgynghori â staff | Os cytunir ar y cynnig mewn egwyddor gan y Cabinet, bydd cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu pan fyddwn ni'n ystyried yr ymrwymiadau hyfforddiant Cymraeg sydd ar waith ar gyfer yr holl staff.<br><br>Bydd staff yn cael eu hannog yn frwd i gwblhau ymrwymiadau presennol os dymunant gan y byddai eu sgiliau Cymraeg yn fuddiol o ran cefnogi eu cyfleoedd ar gyfer adleoli neu weithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol eraill yn y dyfodol<br><br>Bydd gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg yn y gymuned yn cael ei ddosbarthu i staff yr effeithir arnynt ar ffurf y pamffled 'rhoi cynnig arni'<br>[https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/GiveWelshaGoPamphlet.pd](https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/GiveWelshaGoPamphlet.pd) |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned | Niwtral | Os bydd y Cabinet, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, yn cytuno i ddadgomisiynu'r cartrefi gofal bydd hwn yn amser sensitif i staff a phreswylwyr a'u teuluoedd. Bydd pob gohebiaeth yn | Byddwn yn cefnogi Safonau'r Gymraeg yn ein dulliau ymgynghori yn enwedig o ran egwyddorion<br><br>• Bydd yr holl ohebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>• Fydd y Gymraeg | Os bydd y Cabinet, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, yn cytuno i ddadgomisiynu'r cartrefi gofal bydd defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â'u preswylfa nesaf. Ein gofyniad fyddai eu bod yn dewis lleoliad Rheoleiddiedig a bydd hyn yn sicrhau bod y darparwr yn destun (ac yn cael ei arolygu yn erbyn) y canllawiau statudol y mae darparwyr gwasanaeth yn eu darparu neu'n gweithio tuag at gynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw. Lle bo modd, bydd y cyngor yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser | | ddwyieithog a bydd pob person sy’n ymwneud â’r broses yn cael cynnig y cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg fel ei ddull o gyfathrebu â ni. Bydd y defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd yn cael eu cyfarfod yn unigol i sefydlu beth sy’n bwysig iddynt a bydd staff Cymraeg sy’n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu dyrannu i ymateb i anghenion unigol wrth iddo godi. | ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yn ein Cyfathrebu o ran:<br>• cyflwyniad, ee defnydd o ffont, maint, lliw a fformat<br>• safle ac amlygrwydd<br>• pryd a sut y caiff deunydd ei gyhoeddi neu ei arddangos.<br>○ Bydd allbwn cyfathrebu yn Gymraeg o ansawdd a safon briodol.<br><br>Ar hyn o bryd does neb o blith staff na defnyddwyr gwasanaeth wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni. Wrth gwrs mae’n bosibl y bydd yna aelodau o’r teulu a fydd yn ymwneud â’u hanwyliaid yn ystod y broses hon na wyddys | mynd ati i hyrwyddo gwasanaethau sydd â gwasanaethau Cymraeg gwell ar gael<br><br>Os y bwriad yw datgomisiynu'r gwasanaeth, bydd staff yn cael cynnig trefniant ymddeol/diswyddo VR/VER. Bydden nhw hefyd yn cael cynnig yr opsiwn o adleoli os yw hyn ar gael.<br><br>Mae staff yn fedrus mewn gofal ac wedi'u cofrestru fel gweithiwr gofal gyda gofal cymdeithasol Cymru. Bydd eu sgiliau a'u profiad gan gynnwys y rhai sydd wedi datblygu eu sgiliau Cymraeg o ddiddordeb i ddarpar gyflogwyr ym mhob marchnad darparwyr gofal<br><br>Byddai rheoli newid pe bai angen ar gyfer staff yn ceisio cefnogi'r staff gyda sgiliau Cymraeg i aros yn y sector gofal cymdeithasol<br><br>Lle mae cyfleoedd adleoli ar gael yn y Cyngor byddai'r cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg L3 neu uwch yn berthnasol lle bodlonir meini prawf priodol ar gyfer y cyfleoedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | eu dewis ar hyn o bryd a byddwn ni'n sicrhau ein bod yn mynd ati i gynnig y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg ac yn cadw hyn dan adolygiad drwy gydol y broses.<br><br>Er nad oes unrhyw aelod o staff wedi gofyn am y dewis i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni. Mae gan staff (lle mae cofnod) sgiliau Cymraeg ac felly byddwn yn mynd ati i gynnig y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg ac yn cadw hyn dan adolygiad drwy gydol yr amser. | |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | Niwtral | Does dim effaith uniongyrchol ar Gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau Statudol y Gymraeg yn y cynigion<br><br>Dyw'r cynnig ddim yn effeithio o gwbl ar hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith nac wrth ymwneud â'r cyngor.<br><br>Bydd y defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael cyfarfodydd yn unigol i sefydlu beth sy'n bwysig iddynt a bydd staff | Ar hyn o bryd a chyn ymgynghori mae'n ansicr sut mae hyn yn cynyddu neu'n lleihau darpariaeth, cyfleusterau neu allu Cymraeg y Cyngor.<br><br>Mae'r contract cartref gofal yn cynnwys y gofynion canlynol o fewn ei delerau ac amodau (sy'n berthnasol i ofal parhaus y defnyddwyr gwasanaeth yr effeithir arnynt)<br><br><br>**TELERAU AC AMODAU** | Er nad oes gennym unrhyw gofnod o unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth neu aelod o staff yr effeithir arno sydd wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfathrebiadau â ni, byddwn yn parhau i adolygu hyn drwy gydol y broses ymgynghori.<br><br>Ein gofyniad fyddai bod defnyddwyr gwasanaeth yn dewis lleoliad Rheoleiddiedig a bydd hyn yn sicrhau bod y darparwr yn destun (ac yn cael ei arolygu yn erbyn) y canllawiau statudol y mae darparwyr gwasanaeth yn eu darparu neu'n gweithio tuag at gynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cymraeg sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu dyrannu i ymateb i anghenion unigol yn ôl y gofyn. Does dim defnyddwyr gwasanaeth na staff yn byw yn y cartrefi gofal ar hyn o bryd sydd wedi gofyn am wasanaeth yn Gymraeg ond bydd y cynnig gweithredol yn cael ei adolygu drwy gydol yr ymgynghoriad a'r broses | **<u>CONTRACT</u>**<br><br>1.1. Bydd y Darparwr Gwasanaeth yn ystyried gofynion Safonau'r Gymraeg (fel y'u rhestrir yng Nghymal 34) wrth gynllunio ei weithlu a lle bo'n bosibl yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael i ddarparu safonau da o ofal, yn newis iaith yr unigolyn.<br><br>2. <u>Safonau'r Gymraeg</u><br><br>2.1. Bydd gofyn i'r darparwr fodloni | |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Safonau'r Gymraeg a rifir isod am gyfnod y contract ac a ddiffinnir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>2.2. Rhif y safon 1, 4, 5, 6, 7, 8, 20, 24, 24A, 26, 26A, 27, 27A, 27D, 29, 29A, 37, 38, 44, 48, 49, 50, 50A, 5,50B, 61, 62, 63, 69, 70, 69, 70, 147, 148, 149, 145<br><br>2.3. Mae | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | safonau ar gael i'w gweld o dan 'Hysbysiad a Safonau Cydymffurfio'<br><br>16.1 Bydd y Darparwr Gwasanaeth yn sicrhau bod addysg, hyfforddiant, datblygiad a goruchwyliaeth briodol yn cael eu darparu ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â datblygu polisi neu ofal / darparu gwasanaeth i Unigolion. Rhaid i hyn gynnwys ymwybyddiaeth o gydraddolde | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | b, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail oed a hyfforddiant arbenigol sy'n briodol i Ddatganiad o Ddiben y Cartref. Rhaid i hyfforddiant parhaus gael ei ddarparu, neu sicrhau ei fod ar gael, gan Ddarparwyr Gwasanaeth ar gyfer yr holl Staff sy'n gymesur â'r tasgau a'r dyletswyddau y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni. Mae’r Pasbort Gofal Cymdeithasol wedi’i | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gynllunio i roi arweiniad ar hyfforddiant craidd i’r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru<br><br>**<u>Manyleb y Contract</u>**<br><br>13.2.5 Rhaid i'r Darparwr Gwasanaeth gymryd pob cam ymarferol i sicrhau, lle bo'n briodol, bod pobl yn gallu cyfathrebu mewn nifer o ffyrdd a bod cyfathrebiadau'n cael eu cyfleu trwy | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ddewis iaith h.y. Cymraeg, gweledol, signal ac ysgrifenedig. | |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Niwtral | Os yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, byddai'r Cabinet yn cymeadwyo dadgomisiynu'r cartrefi gofal bydd hwn yn amser sensitif i staff a phreswylwyr a'u teuluoedd. Bydd pob gohebiaeth yn ddwyieithog a bydd pob person sy'n ymwneud â'r broses yn cael cynnig y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel ei ddull o gyfathrebu â ni. Bydd y defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael eu cyfarfod yn | Does neb o blith staff na defnyddwyr gwasanaeth wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni. Wrth gwrs mae'n bosibl y bydd yna aelodau o'r teulu a fydd yn ymwneud â'u hanwyliaid yn ystod y broses hon na wyddys eu dewis ar hyn o bryd a byddwn ni'n sicrhau bod hyn yn fater o dan ystyriaeth ac adolygiad drwy gydol y broses.<br><br>Er nad oes unrhyw aelod o staff wedi gofyn am y dewis i | Er nad oes gennym unrhyw gofnod o unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth neu aelod o staff yr effeithir arno sydd wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfathrebiadau â ni, byddwn yn parhau i adolygu hyn drwy gydol y broses.<br><br>Ein gofyniad fyddai bod defnyddwyr gwasanaeth yn dewis lleoliad Rheoleiddiedig a bydd hyn yn sicrhau bod y darparwr yn destun (ac yn cael ei arolygu yn erbyn) y canllawiau statudol y mae darparwyr gwasanaeth yn eu darparu neu'n gweithio tuag at gynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | unigol i sefydlu beth sy’n bwysig iddynt a bydd staff Cymraeg sy’n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu dyrannu i ymateb i anghenion unigol wrth iddo godi. | ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni. Mae gan staff (lle mae cofnod) sgiliau iaith Gymraeg ac felly bydd eu dewis cyfathrebu yn cael ei adolygu'n barhaus | |

**<u>Cam 3 – Gwella'r cynnig</u>**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

| **Beth rydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pwy sy’n gyfrifol?** |
|---|---|---|
| Os bydd y Cabinet yn cytuno, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, i ddatgomisiynu'r cartrefi gofal, bydd staff y cartrefi gofal yn cael cynnig trefniant ymddeol/diswyddo (VR/VER). Byddant hefyd yn cael cynnig yr opsiwn o adleoli os yw hyn ar gael, bod ganddynt sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys y rhai sydd wedi datblygu eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Mae staff yn fedrus mewn gofal ac wedi'u cofrestru fel gweithiwr gofal gyda gofal cymdeithasol Cymru. Bydd eu sgiliau a'u profiad gan gynnwys y rhai sydd wedi datblygu eu sgiliau Cymraeg o ddiddordeb i ddarpar gyflogwyr ym mhob marchnad darparwyr gofal<br><br>Byddai rheoli newid pe bai angen ar gyfer staff yn ceisio cefnogi'r staff gyda | Bydd hyn ond yn cael ei ddilyn os bydd y Cabinet – yn dilyn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad, yn cytuno i fwrw ymlaen â’r datgomisiynu ac fel Rhan o broses rheoli newid ar gyfer y staff. | Sian Nowell |

| | | |
|---|---|---|
| sgiliau Cymraeg i aros yn y sector gofal cymdeithasol<br><br>Lle mae cyfleoedd adleoli ar gael yn y Cyngor byddai'r cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg L3 neu uwch yn berthnasol lle bodlonir meini prawf priodol ar gyfer y cyfleoedd | | |
| Os cytunir ar y cynnig mewn egwyddor gan y Cabinet, bydd cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu pan fyddwn ni'n ystyried yr ymrwymiadau hyfforddiant Cymraeg sydd ar waith ar gyfer yr holl staff.<br><br>Bydd staff yn cael eu hannog yn frwd i gwblhau ymrwymiadau presennol os dymunant gan y byddai eu sgiliau Cymraeg yn fuddiol o ran cefnogi eu cyfleoedd ar gyfer adleoli neu weithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol eraill yn y dyfodol<br><br>Bydd gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg yn y gymuned yn cael ei ddosbarthu i staff yr effeithir arnynt ar ffurf y pamffled 'rhoi cynnig arni'<br>https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/GiveWelshaGoPamphlet.pd | Yn ystod y broses ymgynghori | Sian Nowell |
| Pe bai’r Cabinet yn cytuno i ymgynghori ar y cynigion byddai cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, Byddwn yn cefnogi Safonau’r Gymraeg yn ein hymagwedd at ymgynghori yn enwedig o ran egwyddorion<br><br>• Bydd yr holl ohebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>• Fydd y Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yn ein Cyfathrebu o ran:<br>  • cyflwyniad, ee defnydd o ffont, maint, lliw a fformat<br>  • safle ac amlygrwydd<br>  • pryd a sut y caiff deunydd ei gyhoeddi neu ei arddangos.<br>    ○ Bydd allbwn cyfathrebu yn Gymraeg o ansawdd a safon briodol.<br><br>Ar hyn o bryd does neb o blith staff na defnyddwyr gwasanaeth wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni. Wrth gwrs mae’n bosibl y bydd yna aelodau o’r teulu a fydd yn ymwneud â’u hanwyliaid yn | Yn ystod y broses ymgynghori | Sian Nowell |

RHONDDA CYNON TAF

| | | |
|---|---|---|
| ystod y broses hon na wyddys eu dewis ar hyn o bryd a byddwn ni'n sicrhau ein bod yn mynd ati i gynnig y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg ac yn cadw hyn dan adolygiad drwy gydol y broses.<br><br>Er nad oes unrhyw aelod o staff wedi gofyn am y dewis i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni. Mae gan staff (lle mae cofnod) sgiliau Cymraeg ac felly byddwn yn mynd ati i gynnig y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg ac yn cadw hyn dan adolygiad drwy gydol yr amser. | | |
| Os bydd y Cabinet, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, yn cytuno i ddadgomisiynu'r cartrefi gofal bydd defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â'u preswylfa nesaf. Ein gofyniad fyddai eu bod yn dewis lleoliad Rheoleiddiedig a bydd hyn yn sicrhau bod y darparwr yn destun (ac yn cael ei arolygu yn erbyn) y canllawiau statudol y mae darparwyr gwasanaeth yn eu darparu neu'n gweithio tuag at gynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw. Mae'r gofyniad hwn yn cael ei atgyfnerthu yn ein telerau ac amodau cytundeb<br><br>Lle bo modd, bydd y cyngor yn mynd ati i hyrwyddo gwasanaethau sydd â gwasanaethau Cymraeg gwell ar gael | Bydd hyn ond yn cael ei ddilyn os bydd y Cabinet – yn dilyn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad, yn cytuno i fwrw ymlaen â'r datgomisiynu ac fel rhan o'r protocol cau cartrefi. | Sian Nowell |

Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.

| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
|---|---|
| | |
| | |

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg – Swyddoglaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghori@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg** |
|---|---|---|
| | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |

RHONDDA CYNON TAF

| | | |
|---|---|---|
| | | |

| **<u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u>**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? |
|---|
| Bydd cau cartref gofal, os cytunir arno, yn gofyn am gyfnod o ymgynghori i benderfynu beth sy’n bwysig i bobl ac i sefydlu unrhyw newidiadau i’r asesiad o’r Gymraeg. Yn ystod yr ymgynghoriad a chyn penderfyniad terfynol y Cabinet bydd yr asesiad yn cael ei adolygu. |

| **<u>Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig</u>**<br><br>Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid cyhoeddi’r asesiad effaith ochr yn ochr â’r adroddiad. |
|---|
| *Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn -*<br><br>Os bydd y Cabinet yn cytuno i gyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, byddwn yn cefnogi Safonau’r Gymraeg yn ein dulliau ymgynghori yn enwedig o ran yr egwyddorion canlynol:<br><br>• Bydd yr holl ohebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>• Fydd y Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yn ein Cyfathrebu o ran:<br>• cyflwyniad, ee defnydd o ffont, maint, lliw a fformat<br>• safle ac amlygrwydd. |

- pryd a sut y caiff deunydd ei gyhoeddi neu ei arddangos.
- Bydd allbwn cyfathrebu yn Gymraeg o ansawdd a safon briodol.

Ar hyn o bryd does neb o blith staff na defnyddwyr gwasanaeth wedi nodi y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni. Wrth gwrs mae’n bosibl y bydd yna aelodau o’r teulu a fydd yn ymwneud â’u hanwyliaid yn ystod y broses hon na wyddys eu dewis ar hyn o bryd a byddwn ni'n sicrhau ein bod yn mynd ati i gynnig y cyfle i gyfathrebu â ni yn Gymraeg ac yn cadw hyn dan adolygiad drwy gydol y broses.

**DIM OND** os bydd y Cabinet, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, yn cytuno i ddadgomisiynu'r cartrefi gofal, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn gwneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â'u preswylfa nesaf. Ein gofyniad fyddai eu bod yn dewis lleoliad Rheoleiddiedig a bydd hyn yn sicrhau bod y darparwr yn destun (ac yn cael ei arolygu yn erbyn) y canllawiau statudol y mae darparwyr gwasanaeth yn eu darparu neu’n gweithio tuag at gynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae’r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw. Mae'r gofyniad hwn yn cael ei atgyfnerthu yn ein telerau ac amodau cytundeb

Lle bo modd, bydd y cyngor yn mynd ati i hyrwyddo gwasanaethau sydd â gwasanaethau Cymraeg gwell ar gael.

**Dim ond** os bydd y Cabinet yn cytuno, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, i ddatgomisiynu'r cartrefi gofal, bydd staff yn dilyn proses rheoli newid. Nodir bod gan y staff sgiliau trosglwyddadwy mewn gofal a bod rhai wedi datblygu sgiliau Cymraeg. Bydd y sgiliau a'r profiad hyn o ddiddordeb i ddarpar gyflogwyr ym mhob marchnad darparwyr gofal

Byddai rheoli newid pe bai angen ar gyfer staff yn ceisio cefnogi’r staff sydd â sgiliau Cymraeg i aros yn y sector gofal cymdeithasol. Lle mae cyfleoedd adleoli ar gael yn y Cyngor byddai cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg L3 neu uwch yn berthnasol lle bodlonir meini prawf priodol ar gyfer y cyfleoedd

| **<u>Cam 7 – Cymeradwyo</u>** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Sian Nowell | **Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | Sian Nowell |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Swydd** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Oedolion | **Rydw i’n argymell bod y cynnig:**<br>**(Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau** |
| | | | **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu** |
| | | | **Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg** |
| **Llofnod** | | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | |
| **Dyddiad** | | **Dyddiad** | |